Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

'Mesurau Arbennig' AGIC Parthed yr Adolygiad Arbennig o Wasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Cyfarfod Misol, 24 Mawrth 2009
Yn Llanfrechfa Grange am 2.00pm

COFNODION Y CYFARFOD

Yn bresennol: Peter Higson (Cadeirydd), Andrew Cottom, Carol Shillabeer, Patrick Coyle, Jean Keats, Jenny Sanger, Grant Robinson**,** Julie Wells, Denise Llewellyn**,** Donna Mead**,** Sheila Drayton a Mike Frost.

Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Francis Jones a Lisa Howells.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

Materion yn Codi

Ni chodwyd unrhyw faterion.

Cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredu'r Ymddiriedolaeth

Yn unol â chytundeb blaenorol, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi adroddiad ffurfiol ar y camau gweithredu y nodwyd gan AGIC bod angen canolbwyntio arnynt. Roedd hefyd wedi paratoi adroddiad cyffredinol ar y cynnydd o ran cyflawni ei Chynllun Gweithredu (copïau wedi'u hatodi – cynnydd y mis cyn y cyfarfod hwn wedi'i italeiddio).

Fe wnaethom nodi bod holl arfarniadau'r staff meddygol bellach wedi'u cyflawni. Cynhaliwyd Diwrnod Llywodraethu Clinigol Amlbroffesiynol ar 11 Mawrth 2009. Mae Datganiad Gweledigaeth wedi'i lunio ac mae hwnnw, ynghyd â'r Cynllun Gwella Mamolaeth arfaethedig, wedi'i anfon at arweinwyr clinigol a staff eraill er mwyn cael sylwadau ganddynt. Mae'r gwaith datblygu obstetryddion yn mynd yn ei flaen. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailredeg "Birthrate Plus". Mae'r gyfradd toriadau cesaraidd ar gyfer Chwefror wedi disgyn o 23% i 21%. Bydd yr ad-drefniadau i'r cyfleuster meddyginiaeth ffetysol ddarparu gwasanaethau o Ysbyty Brenhinol Gwent yn cychwyn ar 20 Ebrill 2009.

Roedd y CGSDU yn parhau â'i waith gyda'r Ymddiriedolaeth ac yn meddwl y byddai mewn sefyllfa i adrodd ar gynnydd yn y mis nesaf fel y cytunwyd mewn cyfarfod blaenorol.

Sylwadau AGIC ar y Cyflawni Hyd Yma

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni ei chynllun gweithredu. Yn arbennig, roedd wedi dechrau rhoi sylw i rai o'r camau gweithredu a fyddai'n debygol o gymryd mwy o amser i'w cyflawni, ac roedd rhai o'r rheini, megis arfarnu staff meddygol, eisoes wedi'u cyflawni.

Unrhyw Fater Arall

Nododd y cyfarfod fod materion parhaus yn ymwneud â Birthrate Plus wedi'u trafod mewn cyfarfod diweddar yn Glasgow. Fodd bynnag, cytunwyd mai Birthrate Plus yw'r offeryn gorau sydd ar gael ar hyn o bryd a bod cyfiawnhad dros barhau i'w ddefnyddio.

Nododd y CGSDU a'r LSA fod materion yn ymwneud â staff bydwreigiaeth yn cael eu datrys. Roedd y CGSDU, y Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Bydwreigiaeth a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth yn parhau i gydweithio â'r grwpiau hyn o staff er mwyn cadarnhau'r cynnydd a oedd eisoes wedi'i wneud.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

21 Ebrill 2009.